**Cyngor Rhondda Cynon Taf**
Cofnodion o gyfarfod ar-lein y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Mawrth 21 Medi 2021 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd yn bresennol:**

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Owen-Jones |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd E. Stephens | |

**Swyddogion oedd yn bresennol:**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen
Ms J Thomas, Rheolwr Materion Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Gwella

**Aelodau eraill yn bresennol:**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams - Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Griffiths

**Yn bresennol hefyd:**

Mr Gareth O'Shea - Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol, Cyfoeth Naturiol Cymru

**1 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Caple, G Hughes, M Griffiths, J James a gan Mr J Fish, y Cynrychiolydd Rhiant/Llywodraethwr

**2 Cyfleuster Ymchwil Craffu**

Dywedodd y Cadeirydd bod y cyfleuster ymchwil craffu ar gael yn Uned Busnes y Cyngor i gynorthwyo Aelodau â'u cyfrifoldebau craffu a'u rolau'n Aelodau Etholedig. Dylid anfon unrhyw geisiadau i'r cyfeiriad e-bost craffu.

**3 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn

â'r agenda.

## 4 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf a 16 Gorffennaf (Cyfarfod Arbennig) yn rhai cywir.

## 5 Dolenni Ymgynghori

Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

## 6 Ymateb y Gweiniog Newid Hinsawdd

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, yr Aelodau at y llythyr a dderbyniwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, fel ymateb ffurfiol i gais y Pwyllgor am eglurhad pellach ar fwriadau LlC ynghylch rheoleiddio diogelwch tomennydd glo yng Nghymru.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y llythyr yn egluro'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor wrth iddo lunio ei ymatebion i'r ymgynghoriad ar reoleiddio diogelwch tomennydd glo yng Nghymru. PENDERFYNWYD nodi'r ymateb.

## 7 Cynllun Adborth Cwsmeriaid - Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno - Adroddiad Blynyddol 2020/21

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ei adroddiad ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant mewn perthynas âg adroddiad blynyddol 2020/21 y cynllun adborth cwsmeriaid - rhoi sylwadau, canmol a chwyno
.

Gofynnwyd i'r Aelodau drafod trosolwg o weithrediad ac effeithiolrwydd Cynllun Adborth Cwsmeriaid y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 a darparu eu sylwadau ar gefndir y Cynllun Adborth Cwsmeriaid ynghyd â thrafod gwelliannau ar gyfer 2020/21 a datblygiadau yn y dyfodol a ddarperir gan y Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Gwella yn y cyfarfod.

Canmolodd yr Aelodau ymateb y staff yn ystod y cyfnod heriol diweddar, o ran rheoli cwynion ac ymholiadau cwsmeriaid mewn gwasanaeth a oedd wedi gweld gostyngiad am yr ail flwyddyn yn nifer y cwynion sy'n parhau ar agor yn y cyfnod o 6 mis, cwymp o 2.4% yn 2019/20 i 2.2% yn 2020/21. Cafodd 61% o'r cwynion eu hymdrin â nhw o fewn 10 diwrnod gwaith o gymharu â 56% yn 2019/20.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r rhesymau dros y cynydd arafach na'r disgwyl wrth ddatblygu'r cynllun adborth cwsmeriaid, cyfeiriodd y Rheolwr at flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen

a darparu cefnogaeth yn y gymuned yn ystod cyfnod heriol. Serch hynny, bu cyfleoedd i asesu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a nodi meysydd na fydd angen eu gwella ymhellach yn rhan o'r amserlen ar gyfer gwella'r system newydd, a'i darparu erbyn Ebrill 2022.

Rhoddwyd esboniad i'r Aelodau mewn perthynas â'r cwynion amhenodol (cyfanswm o 351) a allai adael y system yn ystod y cam atgyfeirio, er bod hwn yn faes a fydd yn cael ei gefnogi gan y system newydd wrth symud ymlaen. Dywedodd y Rheolwr fod cwynion trwy'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hidlo gan y garfan cyfryngau cymdeithasol yn y lle cyntaf. Cymaint fu cyfaint ac amlder gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cyngor ynghylch y pandemig a'r cyfyngiadau, ychydig iawn o gwynion a gafwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â'r pandemig. Yn ogystal â hynny, mae gan Gyngor RhCT broses/polisi da iawn ar waith ar gyfer ymdrin â 'chwsmeriaid afresymol', a threfniadau ar waith i ddiogelu staff os byddan nhw'n wynebu cwynion parhaus ac afresymol.

**PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod y gwaith a wnaed gan y Garfan a'r newidiadau deddfwriaethol perthnasol, yn ogystal â'r gofynion adrodd newydd o ganlyniad i newidiadau i bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a

2. Derbyn diweddariad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu maes o law, mewn perthynas â'r gwelliannau a wnaed i wasanaethau a datblygiadau a gynlluniwyd trwy adroddiad Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid.

**8 Cyd-bwyllgorau Corfforaethol - Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adroddiad a geisiodd adborth yr Aelodau ar yr ymgynghoriad a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Fe wnaeth sylwadau ar y cyfle sydd gerbron yr Aelodau i gyfrannu at y Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r angen parhaus am ganllawiau cadarn pellach mewn perthynas â'r trefniadau trosolwg a chraffu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at yr adroddiad diweddar i Gabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n trafod y model llywodraethu, a'r opsiwn cyflenwi a phontio a ffefrir gan y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, sef y model 'lifft and shifft', gyda 10 Arweinydd yr awdurdodau cyfansoddol yn ystyried y model ac yn disgwyl diweddariadau pellach maes o law.

Trafododd yr aelodau nifer o faterion a gynhwysir yn y canllawiau drafft megis yr angen i sicrhau bod staff yn derbyn y lefel briodol o ddiogelwch o dan Adran 101 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Nodwyd hefyd na fydd un aelod o'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dod o'r Cyngor Sir na ChBS yng Nghymru. Fe wnaethon nhw godi pryder ynghylch y trefniadau pleidleisio yn achos newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol neu'r weinyddiaeth newydd sy'n dod i mewn.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y canlynol, sef '*a CJC standards committee will be required to hold at least one meeting during every 12-month period after 31 December 2021*' a gofynnon nhw a oedd hynny'n wall argraffyddol yn y canllawiau drafft.

Gofynnwyd am wybodaeth bellach am '*provisions in section 5 of the Local Government and Housing Act 1989'* hefyd, a chadarnhawyd y byddai'r wybodaeth yma'n cael ei rhannu â'r holl aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Cododd yr aelodau bryder, fel y maen nhw wedi'i wneud o'r blaen, ynghylch amwysedd y trosolwg a'r trefniadau craffu, o ran rôl y Pwyllgor Safonau newydd a'r 'hetiau deublyg' a ganiateir.

Yn dilyn trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, i gyflwyno sylwadau ac ymatebion aelodau'r pwyllgor i Lywodraeth Cymru cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 4 Hydref 2021.

## 9 Adran 19 Adroddiad Archwilio Llifogydd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr Adroddiad Trosolwg ac Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a gofynnodd am sylwadau'r Aelodau ar y camau sydd wedi codi o'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adolygiad o ymateb y Cyngor i Storm Dennis, a adroddwyd i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2020.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau o rôl y Pwyllgor wrth graffu ar ymateb y Cyngor i'r llifogydd difrifol a gafwyd yn ystod 2020 ac o'r cynnig y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu ar fonitro diweddariadau cynnydd wrth symud ymlaen.

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, grynodeb lefel uchel o'r adroddiadau gerbron yr Aelodau ac amlinellodd egwyddorion a phwrpas adroddiadau statudol Adran 19 a rôl yr asiantaethau partner megis Cyfoeth Naturiol Cymru  a Dŵr Cymru Welsh Water. Dywedodd fod y Crynodeb yn darparu trosolwg o'r wybodaeth ffeithiol a'r fethodoleg y tu ôl i'r adroddiad a oedd, o ganlyniad i'r gwaith casglu tystiolaeth helaeth, wedi nodi prif ffynhonnell y llifogydd fel rhwystr sylweddol gan falurion coediog yng nghilfach cwlfert Heol Pentre, yng ngogledd y pentref. Arweiniodd hyn at ddŵr yn llifo i lawr Heol Pentre i Stryd Elisabeth a Stryd y Frenhines, tuag at strydoedd isaf Pentre.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at Dablau 4 a 6 yn yr adroddiad, a nododd grynodeb o'r ffynhonnell/ffynonellau ac achos(ion) llifogydd posibl yn ardal Pentre yn ystod digwyddiadau llifogydd 2020, gan dynnu sylw at yr argymhellion dilynol a ddarparwyd gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol - i'w ystyried gan yr Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a nodwyd mewn ymateb i ffynhonnell/ffynonellau llifogydd yn ardal Pentre.

Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, am y camau y mae'r LLFA wedi'u cymryd, fel yr Awdurdod Rheoli Risg cyfrifol, mewn perthynas â'r cwrs dŵr cyffredin a llifogydd dŵr wyneb a ddigwyddodd yn ardal Pentre yn ystod digwyddiadau llifogydd mis Chwefror a mis Mehefin. Eglurodd hefyd rôl a chyfrifoldebau'r asiantaethau partner, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru mewn perthynas â'r llifogydd, gan dynnu sylw nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn Asiantaeth Rheoli Perygl Llifogydd yn yr achos hwn, ond yn rheolwr ystad y coetir ar gyfer tir Llywodraeth Cymru i'r dwyrain o ardal Pentre, gan gynnwys y gilfach a oedd yn wedi'i rhwystro uwchben Heol Pentre.

Dywedodd Mr Gareth O'Shea - Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru, fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgymryd ag adolygiad mewnol, cynhwysfawr, i nodi'r gwersi i'w dysgu, yr hyn a aeth yn dda a'r hyn nad aeth cystal, a gwella'r ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu yn y dyfodol trwy weithio ar y cyd â phartneriaid. Cydnabu cwmpas y stormydd a'r glaw eithriadol a dwys a gwympodd ar y pryd a graddfa'r stormydd, sy'n debygol o gynyddu yn y dyfodol.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ofyn cwestiynau i'r Swyddogion a oedd yn bresennol.

Cododd y Cadeirydd bryder ynghylch y systemau rhybuddio cynnar a oedd ar waith a gofynnodd am ddiweddariad mewn perthynas â chamau gweithredu i'w gwella. Holodd hefyd am leoliad y gorsafoedd monitro yng Nghwm Rhondda Fach.

Cafodd y cwestiynau yma eu gofyn:

- Beth oedd y 'gadwyn reoli' yn ystod y llifogydd, ac a gafodd cofnod o weithgarwch ei lenwi sy'n tynnu sylw at gyfrifoldebau unigol
- Mae adroddiad i gyfarfod Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 28 Mai 2021 (Cyfoeth Naturiol Cymru - Rhyngweithio ag Awdurdodau Lleol), yn nodi bod 'yr Aelodai wedi cytuno'n unfrydol i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn gofyn iddo adolygu rôl, gweithrediad a phwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru' - oes modd rhannu'r llythyr yma ac unrhyw ymatebion cysylltiedig gyda'r Pwyllgor Craffu?
- Oes modd i'r Pwyllgor Craffu hefyd weld yr Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19 (Pentre) drafft a barodd i Gyfoeth Naturiol Cymru ymateb trwy'r datganiad a gylchredwyd?

Cadarnhawyd bod Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19 (Pentre) drafft wedi'i rannu â Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau cywirdeb ffeithiol a bod asiantaethau partner yn cyfarfod yn rheolaidd fel Bwrdd Llifogydd i sicrhau bod materion strategol yn cael eu cydgysylltu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng Flaen fod rhai o Uwch Reolwyr y Cyngor a llawer o swyddogion eraill yn bresennol am 6am yn Depo Abercynon a Gorsaf Dân Tonypandy, gan ymateb i'r digwyddiad a chydlynu gwasanaethau o'r lleoliadau hyn. Ychwanegodd fod adroddiad Adran 19 yn seiliedig ar y model 'Source Pathway and Receptor' sy'n seiliedig ar achosion, yn hytrach nag ymatebion i'r digwyddiadau digynsail. Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi derbyn adroddiad drafft Adran 19 y Cyngor ar 24 Mai 2021 ac wedi ymateb ar 10 Mehefin 2021.

Nododd yr aelodau gyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru o ran llifogydd afonol ac arfordirol a gofyn am eglurhad ynghylch a oedd y sefydliad wedi cynnal unrhyw ymchwil ac astudiaethau uwch ar y potensial ar gyfer llifogydd, a pha ddata y gellir ei rannu o astudiaethau academaidd yn y dyfodol?

Dywedodd Cyfarwyddwr  Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru fod gan y sefydliad, o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ar gyfer llifogydd afonol ac arfordirol, ddyletswydd i gyhoeddi rhybuddion llifogydd a chynnal system rhybuddio am lifogydd, yn ogystal â chynnal amddiffynfeydd mewn ardaloedd lle mae amddiffynfeydd yn bodoli eisoes. Y safonau cyfredol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu dilyn o ran adeiladu amddiffynfeydd ar draws y rhwydwaith afonol yw 1 o bob 100 safon ar afonydd ac 1 mewn 200 ar ardaloedd arfordirol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol fod y digwyddiad hwn wedi rhagori ar y safonau hynny a bod un o'r casgliadau allweddol yn adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â chynnal sgyrsiau cenedlaethol ledled Cymru ynghylch rheoli'r safonau hyn yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru a lefelau staffio, dywedwyd wrth yr Aelodau fod rhwng 60-70 aelod o staff amser llawn yn adran rheoli risg llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru, a gofynnwyd am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a derbyniwyd peth ohono , i wella ymatebion gweithredol y sefydliad. MDywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru fod modd i'r sefydliad reoli peryglon digwyddiad llifogydd o'r fath yn y dyfodol trwy adolygu arferion cyfredol yn barhaus ond nododd na ellir rhoi unrhyw warantau na fyddai llifogydd ar y raddfa honno byth yn digwydd eto. Ychwanegodd bod gwaith rheoli ystadau tir ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru uwchben ardal Pentre wedi bod yn destun adolygiad a chanfuwyd ei fod yn cyd-fynd â'r safonau cyfredol arfer coedwigaeth da

Ar bwnc atebolrwydd, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod ei weithrediadau ar y safle uwchben ardal Pentre yn cyd-fynd â safonau arfer coedwigaeth da ac nad oedd y gweithrediadau hyn yn debygol o fod yn brif achos y llifogydd. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng Flaen fod adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod y sefydliad yn gweithredu yn unol ag arfer coedwigaeth da; mae'r argymhellion sy'n deillio o adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyd-fynd â'r rhai sy'n deillio o adroddiad A19 y Cyngor, a hynny yw y dylid adolygu'r codau ymarfer.

Nododd yr aelodau y gall arferion carthu afonydd gael effaith niweidiol ar gyflymder llif y dŵr, a all waethygu'r potensial o ran llifogydd wrth iddo fynd yn gyflymach. I gloi, dywedwyd bod angen dull cyfannol i leihau'r risg yn ogystal â chydweithio ymhlith asiantaethau partner i godi ymwybyddiaeth a sicrhau amddiffyniad o ran llifogydd.

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, ddiweddariad o'r camau sy'n deillio o'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adolygiad o ymateb y Cyngor i Adroddiad y Cabinet 18 Rhagfyr 2020 megis bwrw ymlaen â mabwysiadu Is-ddeddfau i reoli Cyrsiau Dŵr Arferol, ynghyd â Swyddog Gorfodi newydd, creu dau Dîm Draenio pwrpasol, creu Swyddog Ymwybyddiaeth a Chefnogaeth Llifogydd i weithio ochr yn ochr â'r Gweithwyr Proffesiynol Perygl Llifogydd yn y Tîm Rheoli Risg Llifogydd i gefnogi preswylwyr, busnesau, i amddiffyn eu cartrefi yn well rhag llifogydd.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod cynnwys Storm Dennis Chwefror 2020 - Adroddiad Trosolwg ac Adroddiad Ymchwilio Llifogydd (Ardal Ymchwilio Llifogydd RCT25) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 Adran 19;

**Bod y wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu i gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:**

2. Rhennir unrhyw ohebiaeth sy'n gysylltiedig â Chyfarfod Arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 28 Mai 2021 ac unrhyw ymatebion cysylltiedig gan yr Awdurdod Lleol gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;
3. Bod cyngor cyfreithiol, trwy nodyn briffio, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gynghori am ei rôl wrth geisio priodoli atebolrwydd am y digwyddiadau Llifogydd yn ardal Pentre.

**10 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Manteisiodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyfle i grynhoi pwyntiau allweddol y cyfarfod a oedd wedi ystyried y Cynllun Adborth Cwsmeriaid - Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwynon - rhoddodd adroddiad blynyddol 2020/21 ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Canllawiau Statudol Drafft mewn perthynas â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a gofynnwyd am ddod â gwybodaeth bellach yn ôl i'r Pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad Ymchwil Llifogydd Adran 19 y Cyngor o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i Swyddogion ac Aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.40pm**

**Y Cynghorydd M Adams**
**Cadeirydd**